**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

—

**Public Accounts and Public Administration Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCCGG@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCCGG
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddPAPA@senedd.wales
senedd.wales/SeneddPAPA
0300 200 6565

Dr Tracey Cooper OBE
Uned Deallusrwydd a Gwyliadwriaeth Canser Cymru
Iechyd Cyhoeddus Cymru

2 Ebrill 2025

Annwyl Tracey,

Ymchwiliad y Pwyllgor i wasanaethau canser yng Nghymru

Yn sgil adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn cynnal ymchwiliad i wasanaethau canser yng Nghymru.

Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb mawr yng ngwaith yr uned a'r rhan y mae'n ei chwarae wrth helpu i lywio gwasanaethau canser yng Nghymru. Yn benodol, hoffem gael rhagor o wybodaeth am y materion a ganlyn:

- pa ddata sydd ar gael yn cymharu canlyniadau o ran cyfraddau marwolaeth a chyfraddau goroesi canser yng Nghymru â gwledydd eraill yn y DU ac yn rhyngwladol. O ran y data sydd ar gael, byddem yn croesawu crynodeb o berfformiad cymharol Cymru;
- pa ddata sydd ar gael ar ba gam y mae canser wedi cyrraedd ar adeg diagnosis i ddeall amrywiad ar lefel gynnyrch ehangach haen is ac o dan y lefel hon yng Nghymru. Hefyd, byddem yn croesawu crynodeb o'r tueddiadau y mae unrhyw ddata sydd ar gael yn eu dangos;
- y wybodaeth ddiweddaraf am waith yr uned gyda'r gronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw i gysylltu data ar gofrestriadau canser â setiau data perthnasol eraill i ddeall effaith ffactorau cymdeithasol a ffactorau demograffig (megis addysg a chyflogaeth) ar ddigwyddedd canser.

Os oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atynt ym maes deallusrwydd a gwyliadwraeth canser, mae croeso i chi wneud hynny.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at glywed gennych. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 23 Ebrill 2025, os yn bosibl, i helpu i lywio ein gwaith yn y maes hwn yn y dyfodol.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Iain Bell, Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth Iechyd Cyhoeddus ac Ymchwil.

Yn gywir,

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.